PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 27 Gorffennaf 6, 2023 50c.

# Undeb Rhos 2023

Roedd naws adeiladol a chadarnhaol i Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhaliwyd gan fwyaf yn y Stiwt, Rhosllannerchrugog o'r 28 - 30 o Fehefin. Roeddem yno ar wahoddiad Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint a'r pwyllgor trefnu o dan gadeiryddiaeth effeithiol y Parch. Trefor Jones-Morris. Mawr yw ein dyled i'r criw bach ac ymroddedig a wnaeth yn siŵr fod y croeso yn dwymgalon a'r holl drefniadau wedi mynd rhagddynt yn ddidramgwydd.

Yn ystod y rhifynnau nesaf o'r *Tyst* fe gawn gyfle i adrodd am y prif ddigwyddiad a phenderfyniadau yn y cyfarfodydd hyn. Gwyddom, fel Cristnogion yng Nghymru, bod heriau mawr yn ein hwynebu ar hyn o bryd yn ein bywyd eglwysig ac yn ein tystiolaeth dros yr Iesu. Ond yn nifer o'r cyfarfodydd eleni cyflwynwyd inni anogaethau i ddyfalbarhau a syniadau sut i ymateb i'r anffyddiaeth bresennol. Cofiwn yn feunyddiol mai ymwneud â gwaith yr Arglwydd yr ydym, nid ein gwaith ein hunain, a bydd ef yn cyflawni ei fwriadau beth bynnag ddigwydd.

# Apêl Cymorth Cristnogol

Un digwyddiad pwysig i'r holl eglwysi oedd lansio Apêl Ffynhonnau Byw mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol. Fel y gwyddoch, roedd y cydweithio hwn gyda Chymorth Cristnogol yn digwydd pob 5 mlynedd yn hanes yr Annibynwyr, ond oherwydd ein bod wedi cynnal Apêl Madagascar yn 2018 aeth 10 mlynedd heibio. Braf felly yw ail-gydio yn y cyd-weithio.

Lansiwyd yr Apêl gan Robin Samuel ac A. Sully, Prifweithredwr dros dro Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Y tro hwn rydym yn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yng Ngholombia De America, lle mae problemau cymdeithasol dybryd. Gwelsom fideo oedd yn cyflwyno'r prosiectau y byddwn yn eu cefnogi fel Annibynwyr. Bydd y fideo ar gael yn fuan i bawb ohonom ar wefan yr Undeb ynghyd ag adnoddau eraill sy'n cael eu paratoi e.e, posteri, oedfaon a gwybodaeth.

Esboniodd Robin fod y teitl Ffynhonnau Byw yn tarddu o Lyfr y Proffwyd Eseia pennod 35, lle dywedir,

Yna fe agorir llygaid y deillion a chlustiau'r byddariaid; fe lama'r cloff fel hydd, fe gân tafod y mudan; tyr dyfroedd allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch; bydd y crastir yn llyn, a'r tir sych yn ffynhonnau byw; yn y tir garw, lle cyrcha'r siacal, bydd gweirglodd o gorsennau a brwyn. Eseia 35:5-7

Yma, mae'r proffwyd yn dweud nad oes lle i ddigalonni oherwydd yn y dyfodol y bydd bendith ar bobl Dduw. Disgrifir y fendith yn nhermau, iechyd, llewyrch ym myd natur, diogelwch a gorfoledd. Bydd yr anialwch yn blodeuo

*parhad ar dudalen 6*






# Aelod Newydd



Hyfryd oedd derbyn Ffion Mair Jenkins yn aelod mewn oedfa gymun yn ddiweddar.

Croeso cynnes i deulu Hope-Siloh Ffion, a phob bendith a dymuniad da i'r dyfodol.


**Jennifer Clarke**

# Dwyn ffrwyth

Yn aml y dyddiau hyn teimlwn yn rhwystredig fel eglwysi a Christnogion nad ydym yn gweld mwy o ffrwyth i'n gwaith dros deyrnas Dduw. Gweddïwn a dyhëwn i'n heglwysi lwyddo ond yn aml y gwrthwyneb sy'n digwydd. Ond sut mae mesur llwyddiant wrth ymwneud â gwaith Duw? Hoffwn rannu'r hanes canlynol gyda chi gan obeithio y bydd yn gyfrwng calondid.

### Rhos

Nid nepell o Rosllannerchrugog mae dau gwmwd bychan y Wern a Harwt. Yno y gweinidogaetha'r 'Hen Seraff' William Williams o'r Wern (1781–1840) ar ddechrau'r 19eg ganrif. Daeth ef yn wreiddiol o Lanfachreth, Sir Feirionydd, i fod yn fyfyriwr yn Athrofa'r Annibynwyr ym 1803 oedd wedi ei lleoli yn Wrecsam. Ym 1808 ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwysi bychain y Wern a Harwt. Plannodd eglwysi eraill yn Rhosllannerchrugog, Rhiwabon a Llangollen. Tra roedd yn gweinidogaethu yn y Rhos daeth gŵr ifanc o'r enw Robert Thomas i ffydd yn yr Arglwydd Iesu a maes o law profodd ef alwad i'r weinidogaeth. Fe'i hordeiniwyd yn fugail ar eglwys annibynnol Glandŵr, Abertawe ym 1837 ac fe bregethodd W. W. o'r Wern yn y cyfarfod hwnnw. Yn fuan symudodd R. Thomas i Raeadr Gwy ac yno y ganed ei fab Robert Jermain Thomas (1840–66).



*William Williams o'r Wern*

### Cenhadwr

Daeth Robert yr ieuengaf i ffydd ac fe aeth yn genhadwr gyda'r LMS (London Missionary Society) i Tsieina a Chorea. Diwedd ei hanes oedd ei fod wedi mynd i Gorea i ddosbarthu Beiblau. Wrth iddo wneud hynny yn hwylio ar afon Taedong yn y llong *General Sherman*, fe'i lladdwyd gan rai o'r milwyr lleol. (Mae amrywiol fersiynau o hanes marwolaeth RJT.) Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach daeth rhai o bobl Corea i ffydd trwy ddarllen y Beiblau a roddwyd iddynt. Tyfodd yr eglwys Gristnogol yn aruthrol yno, yn gymaint felly fel bod 31% o'r boblogaeth o 51 miliwn heddiw yn ystyried eu hunain yn Gristnogion. Ymhlith y Cristnogion Protestannaidd yng Nghorea ystyrir Robert Jermain fel arwr mawr y ffydd.

### Ystyriwch

Ni wyddai Williams o'r Wern am ffrwyth ei waith i'r dyfodol. Defnyddiodd Duw ef i rannu'r newyddion da am Iesu yma yng Nghymru. Ond ffrwyth ei waith yn rhannol oedd yr hyn a ddigwyddodd yn ddiweddarach yng Nghorea. Bu farw Williams o'r Wern yn yr un flwyddyn ag y ganed R. J. Thomas. Ni wyddai'r naill na'r llall am ei gilydd. Cofiwn felly na allwn ni byth fesur dylanwad ein tystiolaeth ni heddiw yn y genhedlaeth sydd i ddod. Ond gwyddom hyn, fod Duw yn defnyddio tystiolaeth ei bobl i ddod a'i deyrnas i Gymru ac i'r byd.

10 Ond fel y glaw a'r eira sy'n disgyn o'r awyr
a ddim yn mynd yn ôl nes dyfrio'r ddaear
gan wneud i blanhigion dyfu
a rhoi hadau i'w hau a bwyd i'w fwyta,
11 felly mae'r neges dw i'n ei chyhoeddi:
dydy hi ddim yn dod yn ôl heb wneud ei gwaith –
mae'n gwneud beth dw i eisiau,
ac yn llwyddo i gyflawni ei phwrpas. Eseia 55



Yr Adran Gydenwadol

GORFFENNAF 6 2023 RHIF 123

# 'Pwy yw Hwn?' – cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru

'Pwy yw Hwn?' oedd thema'r gynhadledd a gynhaliwyd eleni yn y Tabernacl, Caerdydd, ar 23–4 Mehefin. Yn ei anerchiad gofynnodd Bill Davies, y Llywydd newydd, tybed a oeddem fel aelodau o'n heglwysi wedi colli'r 'Waw Ffactor' o wybod mai Mab Duw oedd – ac **yw'r** – Iesu? Os oedd unrhyw un yn amau hynny, yna'n sicr ddigon mi fyddai wedi dychwelyd adre o Undeb 2023 wedi'i galonogi a'i gadarnhau yn y gwirionedd mai Iesu byw yw ein Iesu ni a bod Duw ar waith yng Nghymru heddiw.

**Y Cyfarfod Busnes** – Daeth y gwirionedd hwn yn amlwg yn y Cyfarfod Busnes, yn dwyn y teitl 'Buddsoddi ar gyfer Yfory', pryd y cafwyd cyfle i glywed am weithgarwch y pwyllgorau, y byrddau, y cynghorau a Chorfforaeth yr Undeb, a phob un adroddiad yn dyst fod achos Crist yn parhau. Ymhlith y materion eraill, braf oedd clywed am y gweinidogion newydd, ynghyd â'r gweinidogion oedd wedi cyflawni cyfnodau prawf a'r ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth. Hyfrydwch hefyd oedd clywed sut yr oedd Hyfforddiant Forge wedi dechrau dylanwadu ar ein heglwysi a'r modd yr oedd y Gorfforaeth bellach yn gwerthuso pob adeilad er mwyn gwneud y gorau o'n hadnoddau. Fel rhan o'r cyfarfod hefyd, gwahoddwyd Julie Edwards i roi diweddariad ar faterion Diogelu.

**Lansio Apêl UBC: Cymorth Cristnogol 2023–2024** – Rhan o waith yr eglwys yw ymestyn allan i helpu'r llai ffodus ac un o benderfyniadau'r Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas eleni oedd cynnal apêl mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol er mwyn 'Trawsnewid Bywydau' a grymuso cymunedau yn Zimbabwe drwy hyfforddiant a chefnogaeth. Cyflwynwyd yr apêl gan Andrew Sully, Pennaeth dros dro Cymorth Cristnogol Cymru. Bydd yr apêl yn parhau hyd at fis Rhagfyr 2024.

**Cyflwyniad Mudiad y Chwiorydd** – Prawf arall o weithgarwch ein heglwysi yw'r ffaith fod y Mudiad yn parhau i fod yn frwdfrydig ac ymroddedig. Soniodd Ruth Davies, Llywydd y Mudiad, am y gyfrol *Unveiled* oedd yn cynnwys deugain o hanesion am ferched yr Hen Destament. Roedd Ruth, ynghyd â rhai o'i chyd-aelodau yn y Tabernacl, Caerdydd, a ffrindiau eraill wedi trosi'r gyfrol i'r Gymraeg. Edrychir ymlaen at lansio'r llyfr yn ystod y misoedd nesaf.



Cyfarfod y Gymdeithas Hanes



Côr y Tabernacl yn canu addasiad o weddi Sant Ffransis o waith Euros Rhys a Siân Rhiannon yn Oedfa'r Llywydd dan arweiniad Shirley-Ann James ac i gyfeiliant Euros Rhys Evans (Llun gan Cytûn)

Esiampl dda o wasanaethu'r gymuned oedd sefydlu cartref Glyn Nest dros hanner can mlynedd yn ôl, a chafwyd hanesion am waith y Cartref gan y Parchg Sian Elin Thomas, Is-lywydd y Mudiad a Chaplan Glyn Nest.

**Cyrri, Celf a Chanolfan Glyd** – Sesiwn i godi calon oedd y sesiwn hon dan arweiniad Rosa Hunt. Disgrifiwyd y Ganolfan Glyd a sefydlwyd yn y Tabernacl fel mynegiant o gariad Crist tuag at y rhai oedd mewn angen yn y ddinas. Eglurodd Rosa sut y daeth llaw Duw yn amlwg yn y fenter wrth i fwyty Giovanni (drws nesaf i'r Tabernacl) gynnig eu helpu drwy ddarparu cyrri am ddim i'r digartref ddwywaith yr wythnos. Derbyniwyd hefyd gacennau yn rhad ac am ddim gan siop *delicatessen* gerllaw. Roedd tair elfen bwysig ymhlyg yn y genhadaeth hon, sef cyfiawnder, cyhoeddi'r efengyl a'r harddwch o adnabod gwaith Duw.

**Croesawu Cynrychiolwyr yr Enwadau** – Braint a phleser blynyddol yng nghynhadledd yr Undeb yw estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r enwadau eraill. Eleni estynnwyd 'deheulaw cymdeithas' i Simon Walkling, Llywydd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion; Ian Morris, yr Eglwys Fethodistaidd; Siôn Brynach, Cytûn; Dyfrig Rees, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Dafydd

(parhad ar y dudalen nesaf)

*'Pwy yw Hwn?' – cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru*
*(parhad o dudalen 1)*

Andrew Jones, Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Y Parchg Dyfrig Rees fu'n enau drostynt gan ddiolch am y croeso.

**Croeso cynnes a helpu eraill** – Ychwanegwyd at groeso'r eglwys yng Nghaerdydd yn y gymdeithas a gafwyd o amgylch y byrddau. Cyfranogwyd o de'r croeso yn Brown's Brasserie yng Ngwesty'r Marriott ar y nos Wener, a thrannoeth wedyn yn festri'r Tabernacl. Derbyniwyd yr offrwm yn Oedfa'r Llywydd tuag at 'Croeso Butetown' ac yn Oedfa'r Weinidogaeth tuag at Gartref Glyn Nest.

**Defosiwn agoriadol dydd Sadwrn** – Bod yn ddisgyblion gwell i'r Iesu oedd byrdwn defosiwn Marc Jon Williams fore Sadwrn wrth iddo seilio'i sylwadau ar gomisiwn Iesu i'w ddisgyblion. Cyfeiriodd yn bennaf at ddisgwyliadau'r disgyblion, y demtasiwn i wrthod gwrando, ynghyd ag anogaeth ac addewid yr Iesu. Awgrymodd y dylid newid yr 'Ewch' yn 'Dewch'. Anogodd bawb i ledaenu'r Efengyl a bod yn ddisgyblion hyd eithaf eu gallu, am y gellir bod yn ffyddiog y bydd Iesu'n gwmni ar y daith oherwydd ei addewid i fod gyda ni hyd ddiwedd y byd.

**Cyflwyno'r Is-lywydd** – Y Parchg Eirian Wyn Lewis, Arolygwr Cymanfa Penfro, a gyflwynodd yr Is-lywydd, sef y Parchg Geraint Morse, Ysgrifennydd Cymanfa Penfro. Estynnodd Geraint groeso cynnes i bawb i Gymanfa Penfro, i wlad y 'wês wês', ym Mehefin 2024.

**Y Sesiwn Genhadol** – 'Duw ar Waith Heddiw oedd pennawd y sesiwn hon o dan ofal y Parchg Simeon Baker. Fe'n hanogwyd ganddo i ystyried sut i helpu eraill i ddarganfod 'Pwy yw Hwn?' – pwy yw Iesu – yng Nghymru heddiw. Hyfrydwch pur oedd gwrando ar Paula Hughes, Danni Worley a Deb Stammers (naill ai drwy gyfweliad ar sgrin neu'n fyw) yn disgrifio sut roedd llaw Duw i'w gweld yn amlwg yn Salem, Tonteg, yn Nolgellau ac yng Nghymanfa Môn. Eu dull hwy o genhadu oedd gwrando ar lais Duw, creu cysylltiadau a sgwrsio â phobl yn eu cynefin a'u cymunedau nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad ag eglwys neu gapel gan amlaf. Cyfeiriwyd at enghreifftiau da o'r eglwys yn gweithredu y tu hwnt i oedfaon ar y Sul. Dull tebyg o genhadu oedd gan Phil Wyman, gŵr a ddaeth draw o America i Gaersalem, Caernarfon, y llynedd drwy'r cynllun Fisa, ond yn drist iawn a fu farw'n sydyn yng Ngŵyl y Gelli eleni. Cofiwyd amdano a thalwyd teyrnged arbennig iddo gan y Parchg Rhys Llwyd.

**Cyfarfod y Gymdeithas Hanes** – Dathlu bywyd dau a roddodd eu bywydau i wasanaethu Iesu a gafwyd yn y sesiwn yma. O dan arweiniad y Parchg Ddr Densil Morgan cyfeiriwyd at gyfraniadau'r diweddar Hugh a Verina Matthews gan rai oedd yn cynrychioli pob cyfnod o'u gweinidogaeth. Soniodd Rob Nicholls am yr achlysuron niferus hynny y bu i'w llwybrau groesi a darllenodd



Oedfa'r Weinidogaeth



Y Llywydd newydd, Mr Bill Davies, yn arwyddo'r Beibl

Ann Bowen Morgan atgofion Rhiannon Lewis, un o ddisgyblion Verina yn Ysgol Ffynnonbedr. Sôn am eu cyfnod yn Llundain wnaeth eu mab, Gethin Matthews, tra bu Rosa Hunt yn cyflwyno atgofion gan y rhai a fu'n gweithio gyda Hugh yng Ngholeg y Bedyddwyr. Y dosbarthiadau Beiblaidd a arweiniwyd gan Hugh oedd prif fyrdwn Noa Evans a'r modd yr oedd ei ddylanwad a'i ysbrydoliaeth yn parhau yn y Tabernacl. Daeth y sesiwn arbennig hon i ben gyda recordiad o lais y diweddar Barchg Ddr Hugh Matthews yn arwain oedfa.

**Oedfa'r Weinidogaeth** – Bu'r oedfa hon nid yn unig yn gyfle i estyn croeso i weinidogion newydd ond hefyd i gofio'n annwyl am y gweinidogion a fu farw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bu'n gyfle hefyd i glywed neges arbennig a chofiadwy gan y pregethwr gwadd, y Parchg Olaf Davies, cyn-weinidog y Llywydd. Cododd ei destun o adnodau olaf Eseia 4, oedd yn cyfeirio at iachawdwriaeth Duw mewn cyfnod digon digalon. Roedd gan Eseia felly neges bwysig ar ein cyfer heddiw, a ninnau'n byw mewn oes a gefnodd ar yr hyn oedd yn rhoi ystyr a chyfeiriad i fywyd. Meddai Olaf, 'Ein gwaith fel disgyblion Iesu yw cyhoeddi'r tabernaclau ac nid cyd-fynd â'r anobaith. Does dim hawl gennym i anobeithio gan nad yw anobeithio yn rhan o'n swydd-ddisgrifiad.'

**Y 'Waw Ffactor'** – Heriwyd y gynulleidfa gan y Parchg Olaf Davies yn Oedfa'r Weinidogaeth i ddweud wrth eraill pwy oedd Iesu ac i fynegi'r hyn yr oedd yn ei olygu iddynt. Atgoffwyd pawb hefyd na chafodd teyrnas Dduw ei dileu ac na fyddai'n cael ei ddileu gan fod pabell Duw gyda dynion. Cafwyd tystiolaeth o hynny yn anerchiad y Llywydd y noson cynt wrth iddo yntau gyfleu'r thema 'Pwy yw Hwn?' a hynny'n fyrdwn ar hyd y ddau ddiwrnod yn y Tabernacl. Na! Ni chollwyd y 'Waw Ffactor'



Y Llywydd newydd, Mr Bill Davies, yn arwyddo'r Beibl yng nghwmni'r Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol UBC; y Parchg Ddr Densil Morgan, Cyn-lywydd; a'r Parchg Aled Davies, a offrymodd weddi'r urddo

ADNABOD **Cymeriadau'r Hen Destament**

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 31 'Syrthio ganwaith i'r un bai …'

### Darllen: Genesis 20:1–18

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 129)

I genhedlaeth fel ein cenhedlaeth ni, sydd wedi hen arfer â chael pethau yr un diwrnod neu o fewn ychydig i wneud cais, mae'r penodau yma yn Genesis yn medru bod yn rhwystredig. Ers pennod 12 rydym wedi ein paratoi i edrych ymlaen at eni mab i Abraham a Sarah, ond mae yna oedi. Mae yna bethau eraill mae'n rhaid inni eu gweld a dysgu oddi wrthynt. Yna, ym mhennod 18 fe glywn fod y plentyn am gael ei eni mewn blwyddyn, ond eto, rhaid inni ddysgu o hanes Lot, Sodom a Gomorra.

A beth am bennod 20? Wedi i Abraham dderbyn yr addewid am fab o'r newydd, wedi iddo eiriol dros y dinasoedd, cawn wybod bod Lot wedi ei gadw oherwydd 'yr oedd (Duw) wedi cofio am Abraham, a phan oedd yn dinistrio'r dinasoedd y bu Lot yn trigo ynddynt, gyrrodd Lot allan o ganol y dinistr' (19:29). Mae Abraham wedi ei godi i le uchel yn ein golwg, a byddai'n beth priodol fod y plentyn yn cael ei eni gyda hynny o gefndir. Ond i'r gwrthwyneb, mae Isaac yn cael ei eni wedi cywilydd y digwyddiad yma yn Gerar.

Fe gofiwch o bennod 12 fod Abraham y tro hwnnw wedi mynd yr holl ffordd i'r Aifft; y tro hwn, mae ar derfynau isaf y wlad yr oedd Duw wedi ei haddo, ond heb ei gadael. Wedi cyrraedd, cawn olwg cignoeth o'r hyn ydym ni, a hynny yn y ffaith fod Abraham yn ailadrodd pechod yr oedd wedi ei gyflawni o'r blaen. Anodd deall pam fod rhai am ddweud mai'r un digwyddiad yn cael ei ailadrodd sydd yma; tebyg eu bod yn well pobl na fi, gan gredu na fyddai'n bosibl i Abraham syrthio i'r un bai eto.

Yn ôl un esboniwr ar y llythyr at y Rhufeiniaid, lle y dylem fod yn byw fel rhai sy'n fwy na choncwerwyr, fel sy'n cael ei osod allan yn ogoneddus ym mhennod 8 o'r llythyr, mae profiad yn ein dysgu ein bod yn treulio llawer mwy o amser ym mhennod 7! Yno cawn Paul yn disgrifio'i frwydr ei hun, a'n brwydr ninnau: 'Y mae'r ewyllys i wneud daioni gennyf; y peth nad yw gennyf yw'r gweithredu. Yr wyf yn cyflawni, nid y daioni yr wyf yn ei ewyllysio ond yr union ddrygioni sy'n groes i'm hewyllys' (Rhufeiniaid 7:18–19). Ond, fel yn hanes Abraham, felly yn ein hanes ni. Wrth ofyn, 'Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth?' cawn yr ateb, 'Duw, diolch iddo, trwy Iesu Grist ein Harglwydd! Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath' (Rhufeiniaid 7:24–5; 8:1).

O ran y testun ym mhennod 20, yr wyf am nodi dau beth sy'n syndod, ac eto, yng ngoleuni'r hyn yr wyf wedi ei nodi yn barod, yn ddealladwy. Yn gyntaf, yn yr hanes yma, cawn fod Abimelech, un yr oedd Abraham yn ei ddefnyddio fel esgus, yn cael ei ddangos mewn goleuni cadarnhaol. Yn ôl Abraham, 'Mi feddyliais nad oedd neb yn ofni Duw yn y lle hwn, ac y byddent yn fy lladd o achos fy ngwraig' (adn. 11). O ran Abimelech, mae'n dangos haelioni helaeth at Abraham, 'Yna cymerodd Abimelech ddefaid, ychen, gweision a morynion, a'u rhoi i Abraham, a rhoes ei wraig Sara yn ôl iddo. A dywedodd Abimelech, "Dyma fy ngwlad o'th flaen; cei fyw lle bynnag y dymuni"' (adn. 14–15). Mae'r rheswm dros yr haelioni yn deillio o'r ffaith fod Duw wedi datguddio'i hun iddo, wedi ei rybuddio, ac wedi cydnabod ei fod wedi gweithredu'n ddieuog: 'Ond daeth Duw at Abimelech mewn breuddwyd nos, a dweud wrtho, "Fe fyddi farw o achos y wraig a gymeraist, oherwydd gwraig briod yw hi"' (adn. 3); '"Mi wn iti wneud hyn â chydwybod dawel … Yn awr, rho'r wraig yn ôl i'w gŵr, oherwydd proffwyd yw ac fe weddïa trosot, fel y byddi fyw"' (adn. 6,7). Wrth ryddhau Sarah a dangos haelioni, cawn ei fod ef a'i deulu'n cael eu bendithio, ac yn hynny, mae'r addewid ym mhennod 12:3 yn cael ei gwireddu, 'Bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio'.

Yn ail, mae yna wersi yn ymateb Abraham sy'n syndod o berthnasol. Nid yw safle breintiedig yn warant rhag methiant. Nid oes neb sydd uwchlaw temtasiwn a methiant, pa hyd bynnag fo blynyddoedd eu gwasanaeth: 'Felly, bydded i'r sawl sy'n tybio ei fod yn sefyll, wylio rhag iddo syrthio' (1 Corinthiaid 10:12). Rydym hefyd i weld bod ein hesgusodion yn amlwg i bawb heblaw ni ein hunain. Mae tri esgus yn cael eu defnyddio yma. Mae'r cyntaf yn deillio o foesoldeb sefyllfa, cystal â dweud bod ein hamgylchiadau gyfryw fel nad oedd gen i ddim dewis. Eto yn 1 Corinthiaid 10:13, mae Paul yn rhoi clec ar yr esgus yma, 'Nid oes un prawf wedi dod ar eich gwarthaf nad yw'n gyffredin i bawb. Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano.' Mae'r ail yn ceisio cuddio mewn dadl dechnegol: roedd Sarah yn fath o chwaer i Abraham, ond roedd yn wraig iddo – dyna sy'n ganolog yma! Mae'r trydydd esgus yn pledio traddodiad; dyma fyddwn ni'n arfer ei wneud, 'i ble bynnag yr awn, dywed amdanaf, "Fy mrawd yw ef"' (adn. 13).

Ond, fel mae'r holl hanesion hyd yn hyn wedi ein dysgu, nid ein gwaith ni, ond gwaith Duw sy'n sicrhau bwriadau gras. Roedd tystiolaeth Abraham yn sobor, ac eto mae Duw yn ei arddel o flaen Abimelech. Ac yn wahanol i'r hyn sy'n 'ddoethineb' yn ein hoes ni, ni all hyd yn oed methiannau pobl Dduw atal ei fwriadau grasol ef. Mae Abimelech yn ymateb i'r Duw sy'n arddel Abraham, a'r Duw oedd yn addo bendith iddo yntau. Oherwydd ymateb Abimelech, a gweddi Abraham, 'iachaodd Duw Abimelech a'i wraig a'i forynion; a chawsant blant'.

1. Byddwn yn clywed llawer am fethiant arweinwyr Cristnogol. Sut mae ymateb fel Cristion i'r methiannau hyn?
2. 'Mae'r hanes hwn yn dangos bod gan Gristnogion fan gwan.' Sut fyddwch chi'n ceisio osgoi gosod eich hun mewn sefyllfaoedd sy'n eich gadael yn agored i'r man gwan yn eich bywyd chi?
3. Oes yna bechodau fyddwch chi'n eu hesgusodi oherwydd eich sefyllfa, yn ceisio'u cyfiawnhau ar ryw bwynt technegol, neu'n cuddio yn y ddadl, 'Fel hyn ry'n ni wedi arfer …'?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Gorffennaf am 7.15yh – rhaglen 45 munud**
**Dathlu Beibl Peter Williams**
Bydd Nia ar daith i Sir Gâr a'r Llyfrgell Genedlaethol i olrhain hanes rhyfeddol Peter Williams, y gŵr cyntaf i argraffu'r Beibl yng Nghymru – un o gewri'r Methodistiaid a ddaeth â'r Beibl i lawr o'r pulpud ac i mewn i'r parlwr. Cawn fwynhau emynau pwerus a pherfformiadau swynol.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: rhaglen 1**
Delwyn Siôn yn cyflwyno perfformiadau gan Gantorion Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Sul, 9 Gorffennaf, am 12yp**
Oedfa dan ofal Dyfrig Lloyd, Caerdydd

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Ar drywydd Peter Williams 1723–96



Eleni ar ddiwrnod hafaidd braf cynhaliodd gweinidogion Cymdeithas Gweinidogion Bro Preseli ein pererindod flynyddol ar ddydd Mawrth 13 Mehefin. Tan arweiniad y Parchedig Tom Defis trefnwyd y bererindod i ddilyn hanes yr enwog Peter Williams, yr esboniwr ac un o arweinwyr cynnar y Methodistiaid, ond un a gafodd ei ddiarddel gan y corff Methodistaidd yn Sasiwn Llandeilo Fawr yn 1791 mewn modd cywilyddus. Fe'i diarddelwyd am arddel syniadau Sabelaidd yn y Beiblau gydag esboniad a gyhoeddodd. Cam gwael oedd hyn yn hanes y Methodistiaid ac mae cydymdeimlad helaeth wedi bod tuag at Peter Williams byth ers hynny. Nid oes fawr o barch bellach i agwedd haerllug a balch Nathaniel Rowland a chwaraeodd ran flaenllaw yn y diarddeliad, ond mae cryn gydsyniad gyda geiriau ei dad Daniel Rowland, ddywedodd wrth ei fab oherwydd ei gondemniad o Peter Williams mewn sasiwn blaenorol, 'Nat, Nat, ti a gondemniaist dy well.'

### Tywysydd gwybodus

Yn gydymaith gyda ni ar y daith yr oedd y brawd Eurig Davies, Pontardawe, sy'n gadeirydd Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin ac un sydd wedi ymchwilio a thrwytho ei hun yn helaeth yn hanes Peter Williams. Ar hyd y daith bu'n rhannu hanesion difyr am Peter Williams gyda ni yn ei gysylltiadau â'r mannau yr ymwelsom â hwy. Mawr oedd ein diolch a'n dyled iddo am yr arlwy gyfoethog gawsom ganddo wrth glywed yr hanes.

### O Sanclêr i Landyfaelog

Cychwynasom y daith, er hwylustod parcio, gydag ymweliad i erddi a chanolfan Hywel Dda yn Sanclêr ac wedi cael paned yno aethom ymlaen mewn bws mini i gapel Heol Dŵr yng Nghaerfyrddin, capel, a adeiladwyd gan Peter Williams ar ei draul ei hun yn 1771. Roedd wedi prynu tŷ ar les yn Heol Ddŵr yn 1765 er mwyn cael bod yn agos i argraffdy John Ross, argraffydd ei gyhoeddiadau. Tra buom yn y capel cawsom weld mwy nag un copi cynnar o 'Feibl Peter Williams', fel y caiff ei adnabod. Ymlaen wedyn i'r fynwent yn eglwys Llandyfaelog, a'r pentref lle bu Peter Williams yn preswylio yn ei gartref yno yn Gellilednais, gan weld ei garreg fedd ac arni'r geiriau o Salm 55:12–14, yn fynegiant o'r siom a'r chwerwder a brofodd wrth gael ei ddiarddel gan ei gymrodyr.

### O Dalacharn i Landdowror

Cawsom doriad yn Nhalacharn gan fwynhau lluniaeth yno wrth droed y castell a gerllaw'r mynediad i gartref y bardd Dylan Thomas, a mwynhau wedyn yr hufen iâ.

Ymlaen wedyn i Gapel Coffa Peter Williams ym Mhentywyn, agorwyd adeg canmlwyddiant ei farwolaeth, yn 1896, a chael ein croesawu yno gan y brawd John Thomas aelod o'r eglwys gyfredol sy'n cyfarfod yno wnaeth rannu peth o hanes yr eglwys sy'n dal i addoli heddiw yn y capel bach gyda ni. Braf oedd cael sylwi ar yr hysbysfwrdd newydd sydd wedi ei osod y tu allan gydag ychydig o'r hanes a chod QR i ymwelwyr fedru cael hyd i ragor o hanes am Peter Williams.

Aethom ymlaen wedyn yn y cyffiniau i Eglwys Gymyn, eglwys hynafol lle cafodd Peter Williams ei ordeinio'n gurad, ond ei

*parhad ar y dudalen gefn*

# Apêl Cymorth Cristnogol – parhad

eto. Cymhwyswyd hyn i'r hyn y mae egwyddorion teyrnas Dduw yn eu gwneud o fewn i gymdeithas lle mae anghyfiawnder yn teyrnasu. Cyfansoddwyd gweddi arbennig ar gyfer yr apêl gan R. Samuel sy'n cynnwys y geiriau hyn.

"Dduw Cariad,
Ym mhob cenhedlaeth
Dangosaist dy hun fel un sy'n cofio'r Tlawd a'r newynog,
Yn amddiffyn y bregus a'r gwan,
Ac yn anrhydeddu'r rhai hynny sy'n 'neb'.
Ac ym mhob oes gwahoddaist bobl i ymuno â thi
Yn y gwaith o sicrhau cyfiawnder a heddwch,
Urddas a chydraddoldeb i bawb."

Beth am i'ch eglwys chi fabwysiadu Apêl Ffynhonnau Byw fel eich elusen am y flwyddyn nesaf? Beth am drefnu digwyddiadau arbennig i godi arian ac i godi ymwybyddiaeth o'r angen sydd yng Ngholombia? Ac wedi i chi gynnal gweithgareddau gallwch ddanfon yr hanes gyda lluniau i'r *Tyst* er mwyn inni ysbrydoli ein gilydd mewn haelioni Cristnogol.

# Eglwys Nebo, Felindre, Abertawe

Cynhelir oedfa sefydlu
Y Parchg Rhys Locke
fel bugail ar yr eglwys

**Sadwrn 29 Gorffennaf 4.00 y.p.**

Bydd lluniaeth ar ôl yr oedfa
yn y neuadd.

Croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni

**CYFLE CYFFROUS I WEINIODOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD**

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun EFE,
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?
Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?
Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng Y Wyddfa a Chaernarfon.
Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com - neu ffoniwch (01286) 650450
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023

# Golygyddol

## Ystyried y Dyfodol

Rhai blynyddoedd yn ôl fe ddarllenais gyfrol gan yr Americanwr Francis Chan yn dwyn y teitl "*Letters to the Church*". Ynddo roedd yn siarad am newid sylfaenol a fu yn ei ddealltwriaeth o ffurf a strwythur eglwys. Am un mlynedd ar bymtheg bu'n weinidog llwyddiannus ar eglwys (Megachurch) Cornerstone yn Nyffryn Simi, California. Plannodd yr eglwys ym 1994 ac fe dyfodd mewn cyfnod byr y tu hwnt i bob disgwyliad. Daeth yn eglwys lwyddiannus, ffyniannus gyda llu o weithgareddau a theimlodd Chan a'r aelodau fendith fawr.

### Tro ar fyd




Ond daeth tro ar fyd yng nghalon Chan wrth iddo ddarllen am yr eglwys fore yn y Beibl a chymharu hynny gyda'r hyn oedd wedi digwydd yn eglwys Cornerstone. Teimlai yn anniddig ac fe'i dadrithiwyd yn yr hyn yr oedd yn ei wneud. Nid yn gymaint yn ei waith fel Cristion ond hytrach y ffordd yr oedd yr eglwys wedi datblygu. Yn llyfr yr Actau gwelai gynulleidfaoedd bychain o bobl Iesu oedd yn byw, addoli a gwasanaethu o fewn i'w cymuned leol gan wneud gwahaniaeth a chyfraniad ar lefel micro.

### Megachurch

Wrth fyfyrio ymhellach ar eglwysi cynnull enfawr America gwelai gyfundrefnau oedd yn aml wedi eu hynysu oddi wrth gymunedau o bobl gyffredin gan greu diwylliant ynysig a mewnblyg. Daeth i'r casgliad bod angen newid sylfaenol yn ei ddealltwriaeth o eglwys ac yn ei ddull weithredu. Gadawodd Eglwys Cornerstone yn 2010 gan fynd ati i gynnull criw bychan o bobl o fewn i ardal leol gan blannu eglwys fechan newydd gwahanol iawn ei naws i'r Megachurch yn ardal Tenderloin yn San Francisco. Penderfynwyd o'r dechrau pan fyddai'r eglwys yn tyfu i fod oddeutu 20 o bobl y byddai rhaid cychwyn eglwys newydd mewn ardal arall. Yn ôl Chan, y mae eglwys Iesu Grist i fod yn griw bychan o bobl sydd yn adnabod ei gilydd ac yn byw o fewn i gymuned leol lle y maent yn gallu gwneud gwahaniaeth i'r gymdeithas y maent yn rhan ohoni ac i bobl y deuant i gysylltiad â hwy.

### Yr Undeb a'r dyfodol

Cafwyd cyfarfodydd blynyddol bendithiol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Rhosllannerchrugog yr wythnos diwethaf






a chredaf fod tro ar fyd yn dod. Rydym wedi dod trwy'r cyfnod hwnnw o alaru yn ddagreuol am y dirywiad enbyd sydd wedi digwydd yn ein heglwysi. Efallai bod gwaeth i ddod, ond bellach rydym yn dechrau codi ein pennau. Codi ein pennau i bosibiliadau pennod newydd yn ein hanes fydd yn wahanol i'r hyn a fu. Codi ein pennau i weld beth sydd gan Arglwydd ar ein cyfer. Codi ein pennau i sylweddoli eto nad ein gwaith ni yw hwn ond gwaith Duw. Codi ein pennau nid er mwyn amddiffyn y ffurfiau a fu ond er mwyn cael ein trawsnewid i fod yn eglwysi i Iesu i'r dyfodol. Codi ein pennau ac agor ein calonnau i oleuni a nerth yr Ysbryd Glân. Nid yr hyn a fu a fydd. Bydd pethau yn wahanol iawn o hyn ymlaen yn ein hanes fel Cristnogion yng Nghymru eto mae'r dyfodol yn llawn cyffro a phosibiliadau.

**Alun Tudur**

O.N. Trwy garedigrwydd aelodau Ebeneser, Caerdydd, rwyf yn cael cyfnod Sabothol yn ystod misoedd Medi, Hydref a Thachwedd eleni ac yn cael fy rhyddhau o'm holl gyfrifoldebau. Rwyf yn eithriadol o ddiolchgar iddynt am eu haelioni. Yn ystod y cyfnod hwn bwriadaf gnoi cil ac ymchwilio ymhellach i'r hyn rwy'n drafod yn yr erthygl olygyddol hon. A ddylem fynd ati i blannu cynulleidfaoedd newydd? Os felly, sut a beth ddylai ffurf eglwys fod? Sut mae mesur llwyddiant yng nghyd-destun eglwys? Sut mae tyfu'r eglwysi sydd gennym ar hyn o bryd? Beth yw arweiniad yr Arglwydd i ni ar gyfer y 10 mlynedd nesaf? Nid oes dim yn fwy amlwg heddiw na bod rhaid ennill pobl newydd i'r ffydd. Sut allwn ni annog ein gilydd i genhadu ac efengylu yn lleol? Ni fyddaf yn gallu ateb y cwestiynau hyn, ond o leiaf caf gyfle i'w hystyried o ddifrif. Byddaf hefyd yn cael fy rhyddhau o'm gwaith fel prif olygydd y *Tyst* am y cyfnod o dri mis, ond peidiwch â phoeni mae pethau wedi eu gosod yn eu lle fel y bydd y *Tyst* yn parhau i ymddangos yn wythnosol.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Ar drywydd Peter Williams 1723–96 – parhad

droi allan yn fuan oherwydd bod ei Fethodistiaeth yn wrthun i'r offeiriad absennol a hefyd Esgob Tyddewi ar y pryd. Cyhuddwyd ef o weddïo o'r frest ac esgeuluso defnyddio'r *Llyfr Gweddi*, o bregethu y pechod gwreiddiol, cyfiawnhad trwy ffydd a'r angenrheidrwydd o brofi'r ailenedigaeth. Am yr





un rhesymau, wedi hynny, cafodd ei droi allan o ddau o guradiaethau pellach cyn iddo fwrw ei goelbren yn llwyr gyda'r Methodistiaid.

Aethom ymlaen wedyn gan ymweld ag Eglwys Sant Teilo yn Llanddowror gan weld cofebion i Griffith Jones, sylfaenydd yr ysgolion cylchynol sefydlwyd ganddo ledled Cymru a gweld cofebion yn yr eglwys i Griffith Jones ac i Fadam Bridget Bevan, prif noddwr ei ysgolion. Ni fyddai Peter Williams wedi medru cyhoeddi ei Feibl gyda'r esboniad dylanwadol oni bai am arloesi Griffith Jones a wnaeth y Cymry Cymraeg yn ystod y ddeunawfed ganrif yn bobl ymhlith y mwyaf llythrennog, yn eu hiaith, trwy'r byd yn gyfan ar y pryd.

### Ac yn ôl i Sanclêr

Daeth y diwrnod i'w derfyn trwy gymdeithasu wrth y byrddau a chael swper rhagorol yn Nhafarn y Carvus yn San Clêr. Roeddem wedi cynnal ein cyfarfod busnes o flaen y swper. Ar gyfer tymor 2023–24 etholwyd y Parchedig Catrin Ann yn Gadeirydd a mawr oedd ein diolch i'r Parchedig Ken Thomas a fu'n ein llywio mor ddeheuig gyda'i bersonoliaeth braf, gydol y tymor oedd yn dirwyn i ben, tymor 2022–23. Yn ein pererindota cawsom ar ei hyd ddiwrnod braf ac adeiladol gan fwynhau cwmnïaeth serchog ymhlith ein gilydd. Bydd croeso i weinidogion newydd ymuno gyda ni pan fyddwn yn ail gyfarfod wedi'r haf ar yr ail ddydd Mawrth pob y mis yng ngwesty Caffi Beca yn Efailwen.

**Emyr Gwyn Evans, Ysgrifennydd**

# Ysgol Sul ... ar ddydd Gwener!





Mae rygbi a phêl-droed bechgyn wedi cael ei drefnu ar fore Sul ers blynyddoedd lawer. Yna'r blynyddoedd diwethaf yma dechreuwyd cynnal rygbi a phêl-droed merched ar fore Sul. Ac erbyn hyn mae hyd yn oed y criced yn digwydd ar fore Sul. Wrth gwrs, nid oes neb yn gallu beio'r plant am fod eisiau chwarae mewn tîm gyda'u ffrindiau ar ôl bod yn siarad am y gêm trwy'r wythnos.

O ystyried hyn i gyd, penderfynodd athrawon a rhieni'r ysgol Sul yn y Tabernacl, Hendy-gwyn i arbrofi ac i gynnal Clwb Hwyl ar brynhawn Gwener yn hytrach nag ysgol Sul ar fore Sul. Rydym yn casglu'r plant ar ddiwedd y dydd o'r ysgol leol ac yn eu cerdded lan i'r capel gerllaw. Daeth saith bach i'r cyfarfod cyntaf ar rydym yn gobeithio adeiladu ar hyn yn y dyfodol.

Mae'n siŵr y bydd pob ysgol Sul yng Nghymru yn gorfod ystyried rhywbeth fel hyn yn y blynyddoedd nesaf yma.

**Guto Llywelyn**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*